**PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** — **2il MAWRTH 2016**

# RHAGLEN

**DATGAN BUDDIANNAU**

**Atgoffir yr Aelodau'n barchus bod angen iddynt ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.**

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

**2. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – IONAWR 2016**

Derbyn adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

**3. STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL 2016/17 – DIWEDDARIAD**

Derbyn adroddiad ar y cyd gan Glerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (copi'n amgaeëdig).

**4. AROLWG ASESIAD RISG 2015 / 2016 A CHYNLLUN GWAITH 2016 / 2017**

Derbyn yr adroddiad gan Gadeirydd yr Is-bwyllgor Asesu Risg yn amlinellu'r gwaith a ymgymerwyd gan y pwyllgor a'i gynllun arfaethedig ar gyfer 2016 / 2017 (copi'n amgaeëdig).

**5. PENODI CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL – PARTNERIAETH TELEDU CYLCH CYFYNG SIR DDINBYCH**

Penderfynu ar ohebiaeth a dderbyniwyd gan Reolwr Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Sir Ddinbych (copi'n amgaeëdig).

**6. PENODI CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL – GRŴP BUSNES Y RHYL**

Derbyn gohebiaeth gan Grŵp Busnes y Rhyl (copi'n amgaeëdig) yn gwahodd y Cyngor Tref i benodi cynrychiolydd.

**7. EITEMAU ER GWYBODAETH GAN YR AELODAU**

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain sydd wedi eu cytuno gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

**8. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

**9.** **EITEM SEFYDLOG: GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Mewn perthynas â Chofnod Rhif 79 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016 i ystyried unrhyw geisiadau gan Heddlu Gogledd Cymru (manylion i'w dosbarthu yn y cyfarfod os oes angen).

**10.** **SWYDDFA – ADRODDIAD CYNNYDD**

Derbyn adroddiad cynnydd cyfrinachol llafar (os oes angen).

**11.** **TERFYNU'R CYFARFOD**

Y Cadeirydd i ddirwyn y cyfarfod i ben.